# Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

**2015 dccc 6**

*Trefniadau etholiadol etc. ar gyfer prif ardaloedd newydd*

### 20 Ymgynghori ac ymchwilio

(1) Wrth gynnal ymchwiliad cychwynnol, rhaid i'r Comisiwn gynnal yr ymchwiliadau hynny y mae'r Comisiwn o'r farn eu bod yn briodol.

(2) Ar ôl cynnal yr ymchwiliadau o dan is-adran (1), rhaid i'r Comisiwn lunio adroddiad sy'n cynnwys—

(a) y cynigion y mae o'r farn eu bod yn briodol o ran y trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal arfaethedig ac unrhyw gynigion y caiff farnu eu bod yn briodol ar gyfer newidiadau canlyniadol perthnasol, a

(b) manylion yr adolygiad y mae wedi ei gynnal.

(3) Rhaid i'r Comisiwn—

(a) cyhoeddi'r adroddiad ar wefan,

(b) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn swyddfeydd y prif awdurdodau lleol y mae eu prif ardaloedd i gael eu huno i greu'r brif ardal arfaethedig ar hyd y cyfnod ar gyfer sylwadau,

(c) anfon copïau o'r adroddiad at Weinidogion Cymru a'r ymgyngoreion mandadol,

(d) hysbysu unrhyw bersonau y mae'r Comisiwn yn eu hystyried yn briodol sut i gael copi o'r adroddiad, ac

(e) gwahodd sylwadau a hysbysu Gweinidogion Cymru, yr ymgyngoreion mandadol ac unrhyw bersonau y mae'r Comisiwn yn eu hystyried yn briodol am y cyfnod ar gyfer sylwadau.

(4) At ddibenion is-adran (3) "y cyfnod ar gyfer sylwadau" yw cyfnod nad yw'n llai na 6 wythnos nac yn hwy na 12 wythnos (fel a benderfynir gan y Comisiwn) sy'n dechrau yn ddim cynt nag un wythnos ar ôl rhoi hysbysiad am y cyfnod.